Cylchlythyr EPW

Rhifyn Gwanwyn 2023

epwales.org.uk
@epwales

Platfform yr Amgylchedd Cymru

Environment Platform Wales

Croeso

Croeso i gylchlythyr Llwyfan Amgylchedd Cymru (EPW). Nod EPW yw cynyddu ansawdd a pherthnasedd y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer rheolaeth amgylcheddol a llunio polisi yng Nghymru. Gwnawn hyn drwy gefnogi ymchwilwyr i ymgysylltu'n uniongyrchol â Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru drwy weithdai a grwpiau gwaith a thrwy gefnogi datblygiad ceisiadau ariannu ar raddfa fawr sy'n uniongyrchol berthnasol i lunwyr polisi Cymru.

Staff Newydd

Catherine Arnold - Swyddog Partneriaeth - Llwyfan Amgylchedd Cymru
Rydym yn croesawu ein Swyddog Partneriaeth newydd, Catherine Arnold, i'r tîm. Mae Catherine wedi ymuno â ni o'r Groes Goch Brydeinig, lle bu'n gweithio mewn addysg gyhoeddus. Mae gan Catherine gefndir academaidd mewn Gwyddor Dŵr, Polisi a Rheolaeth.

Gyrfaoedd Myfyrwyr

Ym mis Mawrth eleni, ymwelodd EPW â nifer o ffeiriau gyrfaoedd Cymru i drafod gyrfaoedd yn y sector amgylcheddol a chynaliadwyedd gyda myfyrwyr. Rydym wedi lansio 'canolfan gyrfaoedd' ar ein gwefan i ategu cyngor gan dimau gyrfaoedd prifysgolion. Amlygodd ein trafodaethau gyda myfyrwyr yr angen am wybodaeth yn ymwneud â chyfleoedd profiad gwaith yn y sector amgylcheddol. Os hoffech drafod lleoliadau gwaith i fyfyrwyr yn eich sefydliad chi, cysylltwch â ni.

Cysylltu â ni

info@epwales.org.uk
andy.schofield@epwales.org.uk
catherine.arnold@epwales.org.uk
@epwales

EPW

epwales.org.uk
@epwales

Cylchlythyr

Cipolwg Cymru

Diolch i bawb sydd wedi cyflwyno ar ein cyfres sgyrsiau Cipolwg Cymru eleni. Mae dros 600 o bobl wedi cofrestru ar gyfer y gyfres, gan roi mynediad iddynt i 20 o gyflwyniadau. Os hoffech gofrestru a mynychu un o'r chwe chyflwyniad sy'n weddill (Gweler isod) yn y flwyddyn academaidd hon, cofrestrwch yma.

- 3 Mai - Dr Leshan Uggalla, Prifysgol De Cymru - Monitro Ansawdd Aer
- 10 Mai - Dr David Kidner, Prifysgol De Cymru - Arolygon o'r Awyr
- 17 Mai - Chris Harris, Prosiect Coetir Cymunedol Coed y Bont
- 24 Mai - Liz Chadwick / Eleanor Keen - Prosiect Dyfrgwn Caerdydd
- 7 Mehefin - Tania Sharman, Prifysgol Princetown - Cysur thermol dynol awyr agored ac ynys wres drefol mewn parthau hinsawdd lleol yng Nghaerdydd
- 14 Mehefin - Tom Overton - Y Clo Beic

Mae recordiadau ar gael ar ein gwefan o sgyrsiau blaenorol.

Dilynwch @epwales ar y Cyfryngau Cymdeithasol

Cymuned Fuddiant Ymchwil Cronfeydd Dŵr #ResRes

Ffurfiwyd ein grŵp ansawdd dŵr cronfeydd dŵr i alluogi cwmnïau dŵr a sefydliadau eraill sydd â buddiant mewn rheoli cronfeydd dŵr i rannu profiadau rhyngddynt eu hunain a chydag ymchwilwyr er mwyn deall y problemau yn well a nodi opsiynau rheoli targedig sy'n gysylltiedig â rheoli cronfeydd dŵr.

Digwyddiadau Aelodaeth Sefydliad Proffesiynol

Ym mis Chwefror a mis Mawrth gwnaethom gynnal tair trafodaeth banel gydag aelodau o CIWEM, Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig a'r Sefydliad Rheoli Pysgodfeydd.
Yn y digwyddiadau hyn, bu'r panelwyr yn trafod manteision aelodaeth o sefydliad proffesiynol a'u teithiau gyrfa personol. Gallwch weld y digwyddiadau hyn ar ein gwefan

ifm Institute of Fisheries Management
Sefydliad Rheoli Pysgodfeydd

CIWEM Chartered Institution of Water and Environmental Management
Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd

Institute of Chartered Foresters
Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig

EPW

epwales.org.uk
@epwales

Cylchlythyr

Cynhadledd Ansawdd Dŵr Gwell i Gymru 27-29 Mehefin

Mae EPW yn cynnal cynhadledd Ansawdd Dŵr Gwell i Gymru gyda'r bwriad o nodi'r bylchau allweddol mewn gwybodaeth ac ymchwil sy'n ymwneud ag:
Ewtroffigedd Dyfroedd Croyw
Halogyddion sy'n Dod i'r Amlwg
Dyfroedd Ymdrochi Mewndirol
Rheoli Dŵr Gwastraff
Cyhoeddir galwad gofrestru cyn bo hir; os oes gennych ddiddordeb mewn cyflwyno a/neu fynychu, e-bostiwch ni.



Rhaglen Arsylwi'r Ddaear ar gyfer Prifysgolion Cymru

Mae EPW wedi hwyluso'r gwaith o gyflwyno Rhaglen Arsylwi'r Ddaear Llywodraeth Cymru. Mae 'na 100 o gytundebau ymchwilwyr unigol ym mhob un o wyth prifysgol Cymru. Mae'r darparwyr data, Planet Labs, ar y cyd â Llwyfan Amgylchedd Cymru, wedi cyflwyno cyfres o weminarau hyfforddi ar gyfer defnyddwyr terfynol (recordiadau ar gael yma). Byddwn yn cynnal gweithdy wyneb-yn-wyneb yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen ar 8 Mehefin 2023. Cysylltwch â ni os oes diddordeb gennych.

Anghenion Tystiolaeth Forol ac Arfordirol

Mae EPW yn helpu i ledaenu anghenion tystiolaeth forol ac arfordirol blaenoriaeth uchel Cyfoeth Naturiol Cymru o fewn cymunedau ymchwil yn ein prifysgolion partner.
Drwy alinio eich diddordebau ymchwil ag anghenion tystiolaeth CNC, gallech ddarparu tystiolaeth bwysig i gefnogi'r rhai sy'n rheoleiddio a rheoli Amgylchedd Cymru.
I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan.

Mae ein Cronfa Ddata Ymchwilwyr yn ehangu

Mae gan EPW dros 630 o ymchwilwyr amgylcheddol wedi'u rhestru ar ein gwefan. Gallwch chwilio'r gronfa ddata yn ôl thema neu yn ôl enw. Ymunwch â chronfa ddata EPW o ymchwilwyr amgylcheddol yma.

Ail-drydarwch ein newyddion diweddaraf!
Rhannwch ein lluniau ar Instagram!
Dilynwch ni ar Facebook!